# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## SJR (2)-01-06(p5)

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 9 Chwefror 2006 |
| **Lleoliad:** | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| **Teitl:** | Cyfle Cyfartal 2004-05: Sut y mae'r Portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn bodloni gofynion yr Adroddiad hwnnw |

**Diben**

1.Mae'r papur hwn yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor ar y chweched Adroddiad Cyfle Cyfartal Blynyddol: 2004-05.

Crynodeb / Argymhellion

2. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi cynnwys y papur hwn.

**Y Cefndir**

3. Mae Adroddiad Blynyddol y Cynulliad ar Adran Cydraddoldeb 120 Deddf Llywodraeth Cymru yn nodi:

120. - (1) Bydd y Cynulliad yn gwneud trefniadau priodol gyda'r bwriad o sicrhau bod ei swyddogaethau'n cael eu harfer gan roi sylw priodol i'r egwyddor y dylai pawb gael cyfle cyfartal.

(2) Ar ôl pob blwyddyn ariannol, bydd y Cynulliad yn cyhoeddi adroddiad yn cynnwys -

(a) datganiad am y trefniadau a wnaed yn unol ag isadran (1) a oedd mewn grym yn ystod y flwyddyn ariannol honno, a

(b) asesiad ar effeithiolrwydd y trefniadau hynny o ran hybu cyfleoedd cyfartal.

4. Mae'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn chwarae rhan allweddol wrth fodloni'r gofyniad statudol hwn. Mae

datganiad y trefniadau ar gyfer sicrhau cyfle cyfartal yn cynnwys tri adroddiad sy'n cael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor:

adroddiad blynyddol y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, adroddiad blynyddol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ar gyfle cyfartal, ac adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gydraddoldeb (gydag adroddiad ar wahân gan yr Ysgrifennydd Parhaol ar faterion sy'n ymwneud â staffio corfforaethol).

5. Bydd asesiad o effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn cael ei lunio ar sail trafodaeth y Pwyllgor o'r tri adroddiad blynyddol. Bydd yr asesiad, gyda'r adroddiadau a'r atodiadau, yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad fel Chweched Adroddiad Blynyddol y Cynulliad ar Gyfle Cyfartal.

6. Ar hyn o bryd, y bwriad yw cynnal trafodaeth yn y Cyfarfod Llawn ar Chweched Adroddiad Blynyddol y Cynulliad ar Gyfle Cyfartal 2004-05 yn ystod mis Mawrth 2006.

## Y Newyddion Diweddaraf

## Cymunedau yn Gyntaf

7. Bydd y Canllaw Cymunedau yn Gyntaf drafft yn cael ei ddosbarthu yn ystod mis Chwefror i Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf ac i randdeiliaid allweddol eraill er mwyn iddynt hwy gael gwneud sylwadau. Yna, bydd y Canllaw terfynol yn cael ei gyhoeddi fis Ebrill. Bydd yn darparu gwybodaeth glir ar gynnwys pobl hy^n ac iau ym mhroses Cymunedau yn Gyntaf. Bydd hefyd yn cael ei ailysgrifennu i ddarparu mwy o fanylion ar sut y dylai Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf gyfrannu at y gwaith o fodloni amcanion Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer yr iaith Gymraeg, fel sydd wedi'i nodi yn Iaith Pawb. Trwy gydol 2004/05, mae cyllid wedi'i roi i nifer o sefydliadau, gan gynnwys Tîm Cymorth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig; Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon; RNIB a Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar a Thrwm eu Clyw (RNID) er mwyn sicrhau bod proses Cymunedau yn Gyntaf yn un gynhwysol.

## Cronfa Datblygu Swyddfeydd Post

8. Ymysg pethau eraill, mae'r Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post (DDA) wedi ariannu'r gwaith o sicrhau bod pobl anabl yn gallu cael mynediad i swyddfeydd post lleol yn ogystal â gwelliannau eraill sy'n gwella cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Mae effaith cydraddoldeb ar y Gronfa wedi'i fonitro fel rhan o'r hyn fydd yn cael ei gyhoeddi maes o law fel gwerthusiad o'r Gronfa, drwy ofyn i bobl nodi eu hoedran, ethnigrwydd, rhyw a chenedligrwydd.

## Sector Gwirfoddol

9. Yn dilyn trafodaethau â Chyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol, sefydlais Weithgor Mynediad i'r Anabl, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Comisiwn Hawliau Anabledd, Anabledd Cymru, RNIB Cymru, a JMU Access Partnership sef ymgynghorwyr arbenigol. Y Trefnydd, Jane Hutt, sy'n cadeirio'r Grwp.

Mae'r Grwp wrthi'n llunio adroddiad drafft ar leoliadau sy'n hawdd cael atynt, a fydd yn cael ei ryddhau ar gyfer cyfnod ymgynghori ddechrau 2006.

10. Bydd cronfa newydd, sef 'Cronfa ar gyfer Grwpiau dan Anfantais' yn cael ei chyflwyno yn ystod 2006/7, ar ôl cyfnod o ymgynghori cyhoeddus. Bydd y Gronfa yn cynorthwyo grwpiau y mae eu haelodau wedi'u hynysu / neu wedi'u heithrio'n gymdeithasol yng Nghymru. Bydd y Gronfa yn helpu i ddatblygu gallu grwpiau i gyrraedd eu nodau ac i fodloni eu hamcanion, ac i gystadlu am arian o ffrydiau ariannu cyfredol. Dyma'r grwpiau dan anfantais y disgwylir i gyrff a fydd yn ymgeisio berthyn iddynt: lleiafrifoedd ethnig, sefydliadau pobl anabl, grwpiau lesbiaid, hoywon a phobl ddeurywiol, grwpiau merched, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, sipsiwn a theithwyr, a chymunedau sy'n siarad iaith leiafrifol.

11. Rwyf hefyd wedi darparu cyllid i ganiatáu i Gyngor Cymru i'r Deillion (CCD) gynnal prosiect peilot ar gymorth T.G. i bobl â nam ar eu golwg. Dros y ddwy flynedd nesaf, bydd CCD yn creu rhwydwaith T. G. ar gyfer darparwyr sydd â gwybodaeth arbenigol, a bydd hefyd yn hyfforddi pobl o amrywiaeth o sefydliadau gwirfoddol o bob cwr o Gymru ar sut i asesu anghenion pobl â nam ar eu golwg o ran T.G.

## Y Gyfarwyddiaeth Dai - Gofal a Thrwsio

12. Mae'r 22 o asiantaethau Gofal a Thrwsio sy'n bodoli ledled Cymru wedi helpu pobl hy^n ac anabl i aros yn eu cartrefi eu hunain drwy ddarparu cymorth a chyngor ymarferol uniongyrchol mewn cysylltiad â'r gwaith atgyweirio ac adnewyddu mwyaf priodol y gellid ei gynnal yn y cartref. Yn ystod 2004-2005, rhoddwyd £3.978 miliwn gan Lywodraeth y Cynulliad i gefnogi gweithgareddau Gofal a Thrwsio yng Nghymru. Derbyniodd yr asiantaethau 32,823 o ymholiadau yn ystod 2004-05 ac roedd 98% o'r cleientiaid hynny'n 75 oed neu'n hy^n, yn anabl neu'n dioddef o iechyd gwael; cafodd 27,071 o wahanol dasgau eu cwblhau am gost o £14.6 miliwn. Fel rhan o'r gwaith o reoli eu perfformiad, mae Gofal a Thrwsio yn darparu ystadegau, sy'n cynnwys nifer yr ymholiadau a gawsant, nifer y bobl a gafodd help a gwerth y gwaith a wnaed.

13. Mae Gofal a Thrwsio yn darparu gwasanaethau ar gyfer rhai o'r grwpiau o bobl sydd fwyaf agored i niwed yn y gymdeithas, gan helpu pobl hy^n ac anabl i aros yn eu cartrefi mewn amgylchedd lle byddant yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel. Mae Gofal a Thrwsio hefyd yn gweithio'n galed i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl i bobl hy^n, ac roeddent yn rhan uniongyrchol o adolygiad Llywodraeth y Cynulliad o Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl yn ystod 2005. Hwy oedd yn gyfrifol hefyd am drefnu dwy seminar ddilynol i'r perwyl hwn. Yn ogystal, mae Gofal a Thrwsio yn gweinyddu'r Rhaglen Addasiadau Brys sy'n gyfrifol am wneud addasiadau ar raddfa fechan ar gyfer pobl hy^n ac anabl gan alluogi'r ail garfan o bobl i aros gartref a'u hatal rhag gorfod mynd i'r ysbyty ac i ofal preswyl. Ar gyfer y rheini sydd yn yr ysbyty, mae'r rhaglen yn hwyluso'r broses o'u rhyddhau o'r ysbyty yn gynt. Yn ystod 18 mis cyntaf y cynllun, a ddechreuodd yn ystod mis Gorffennaf 2002, cafodd tua 10,500 o gleientiaid gymorth, a gadawodd 3,300 ohonynt yr ysbyty yn gynnar.

14. Mae asiantaethau Gofal a Thrwsio yn hanfodol wrth ddarparu elfennau allweddol 'Strategaeth ar

gyfer Pobl Hy^n' y Cynulliad, ac roeddent yn chwarae rhan hollbwysig wrth drefnu agweddau allweddol ar y 'Gronfa Ddata Genedlaethol ar Annibyniaeth ac Anghenion Pobl Hy^n o ran Tai'. Maent hefyd yn enghraifft dda o'r gwerthoedd sydd wedi'u cynnwys o fewn Creu'r Cysylltiadau' gyda'i bwyslais ar Wasanaethau sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd.

## Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (HEES)

15. Yn ystod 2004-05, dyrannwyd £14,121k i raglen HEES yng Nghymru, gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r cynllun yn darparu gwell systemau gwresogi, gwell deunydd inswleiddio mewn cartrefi a chynnyrch sy'n defnyddio ynni'n effeithiol i'r henoed ac i bobl anabl sy'n byw mewn tai cymdeithasol, sy'n rhentu'n breifat neu gartrefi sy'n eiddo preifat. Mae'r cynllun yn mynd i'r afael â nifer o bolisïau trawsbynciol, sy'n amrywio o leihau tlodi tanwydd i wella iechyd a lles. Y gyllideb gyfredol yw £14,121k ond mae hyn wedi'i gynyddu i £19, 621k ar gyfer 2006-07.

## Strategaeth Dai Genedlaethol ar gyfer Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig

16. Tai Pawb yw'r sefydliad tai cyntaf yng Nghymru ar gyfer Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi sefydliad Tai Pawb ac mae'n cyfrannu £200,000 o grant y flwyddyn i'r cynllun. Nod Tai Pawb yw Hybu cydraddoldeb hiliol a chyfiawnder cymdeithasol o ran tai yng Nghymru. Daeth y sefydliad yn elusen gofrestredig yn ystod mis Mehefin 2005. Mae Tai Pawb yn cefnogi landlordiaid a Phobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n defnyddio gwasanaethau tai er mwyn sicrhau y gall pobl o bob cefndir ethnig gael mynediad at dai o ansawdd da, a hynny o fewn cymunedau cynaliadwy a diogel. Mae amcanion yr Elusen yn cynnwys darparu cyngor a chymorth i bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig fel pobl sy'n darparu ac yn derbyn gwasanaethau tai, gan annog cynrychiolaeth o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ar bob lefel o fewn tai cymdeithasol, ac annog darpariaeth o wasanaethau sy'n sensitif yn ddiwylliannol o fewn y sector tai cymdeithasol. Bydd gwaith Tai Pawb yn y dyfodol yn cynnwys datblygu Banc o Arfer Da ar gyfer Cymru ar gydraddoldeb hiliol mewn cysylltiad â thai a sefydlu'r maes fel rhan o'r agenda strategol genedlaethol ar gyfer tai yng Nghymru. Yn ogystal, mae Tai Pawb wrthi'n sefydlu Rhwydwaith Tai Cydraddoldeb Hiliol, a gafodd ei lansio ar 25 Ionawr 2006.

17. Mae adolygiad llawn wedi'i gynnal o'r modd y mae Landlordiaid Cymdeithasol yn gweithredu'r Strategaeth Dai Genedlaethol ar gyfer Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae adroddiad wedi'i gyhoeddi ac fe'i lansiwyd yng Nghynhadledd Dai Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn ystod mis Hydref 2005. Sefydlodd cyllideb 2006/2007 arian newydd ac ychwanegol gwerth £200,000 ar gyfer 06/07 a £210,000 ar gyfer 07/08 i ariannu prosiectau tai pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i gynorthwyo'r broses o weithredu'r Strategaeth. Mae ceisiadau'n cael eu hystyried ar hyn o bryd gan raglen y Grant Rheoli Tai Cymdeithasol.

## Cynllun Gweithredu Tai Ffoaduriaid Drafft

18. Dosbarthwyd y Cynllun Gweithredu Drafft ar gyfer Tai Ffoaduriaid, a gynhyrchwyd gan Is-grwp Tai

Fforwm Polisi Ffoaduriaid Cymru Gyfan, yn ystod mis Tachwedd 2005. Rhaid cyflwyno ymatebion erbyn 3 Mawrth 2006.

## Yr Uned Diogelwch Cymunedol

19. Mae'r holl Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol wedi'u hannog i edrych ar faterion sy'n ymwneud ag amrywiaeth, gan gynnwys troseddau casineb. Mae nifer o'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol wedi cynnwys materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth yn eu Strategaethau Diogelwch Cymunedol i'w gweithredu yn ystod 2006 a hyd at fis Mawrth 2008.

20. Mae Black Association of Women Step Out, BAWSO, yn derbyn grant refeniw o £203,499 y flwyddyn ar gyfer ffoaduriaid yng Nghasnewydd, Caerdydd ac Abertawe ar gyfer merched duon a lleiafrifoedd ethnig.

21. Bu Grwp Gweithredu Strategaeth Troseddau Ieuenctid Cymru Gyfan yn archwilio adroddiad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid "Differences or Discrimination" yn ystod mis Medi 2005. Rhoddwyd sicrhad ei bod yn ofynnol yn awr i bob Tîm Troseddau Ieuenctid yng Nghymru gynhyrchu cynlluniau gweithredu amrywiaeth blynyddol. Hefyd, cafodd yr adroddiad ei gyflwyno i'r Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yng Nghymru er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o bwysigrwydd talu sylw penodol i faterion sy'n ymwneud ag amrywiaeth.

Mae Canllawiau i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ar gynllunio i weithredu ym maes camddefnyddio sylweddau, comisiynu gwasanaethau a Fframwaith Driniaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru oll yn rhan bwysig o'r gwaith o ddadansoddi anghenion lleol. Rhaid i bartneriaethau lywio gwasanaethau sy'n mynd i'r afael â grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd yn ogystal ag amrywiol grwpiau.

## CAFCASS

23. Daeth CAFCASS CYMRU yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 1 Ebrill 2005, a chyn hynny, arferai fod yn rhan o CAFCASS (Cymru a Lloegr). Roedd gan CAFCASS Strategaeth Amrywiaeth a Grwp Llywio Amrywiaeth cynhwysfawr.

24. Mae CAFCASS CYMRU yn creu Strategaeth Amrywiaeth, a fydd yn cael ei llunio gan grwp gorchwyl a gorffen cynhwysfawr, a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o bobl Uned, Cangen ac ardal ddaearyddol yng Nghymru. Bydd hyn yn sicrhau bod y strategaeth yn cynrychioli pob un o'n staff, yn gwasanaethu anghenion y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, a bod pob aelod o staff yn dangos perchenogaeth dros y strategaeth hon. Bydd y strategaeth yn cyflwyno gwybodaeth ddefnyddiol i ddogfennau a strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ac yn eu hystyried, yn ogystal â chwblhau ein dyletswyddau cysylltiol.

25. Mae CAFCASS CYMRU yn monitro materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth mewn cysylltiad â

phob achos, a defnyddir yr wybodaeth hon i lywio a gwella ein gwasanaethau. Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n adolygu ein gweithdrefn monitro amrywiaeth, yn dilyn ymgynghoriad â phob aelod o staff.

## Goblygiadau Ariannol

26. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn deillio o'r papur hwn. Bydd goblygiadau unrhyw gamau gweithredu y bwriedir eu cymryd yn cael eu hystyried cyn gwneud unrhyw ymrwymiad cadarn.

Camau i'r Pwyllgor Pwnc eu cymryd

27. Gofynnir i'r pwyllgor nodi hynt y gwaith.

**Edwina Hart MBE AC**
**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**
**Swyddog Cyswllt: Emyr Roberts, Cyfarwyddwr Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**